

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

## Cydweithredu

- Bydd Byrddau Partneriaeth yn cael eu sefydlu
- Bydd angen i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod adnoddau ar gael a'u bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol



## Egwyddorion y Ddeddf

- **Pobl** - rhoi'r unigolyn yn y canol drwy roi llais cryfach iddo a mwy o reolaeth dros y gwasanaethau y mae'n eu derbyn
- **Llesiant** - cefnogi pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain, gan adeiladu ar amgylchiadau, gallu, rhwydweithiau a chymunedau person
- **Ymyrraeth gynnar** - mwy o wasanaethau ataliol, yn cefnogi pobl cyn i'w hanghenion droi'n argyfyngus
- **Cydweithio** - mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng yr holl bartion dan sylw



## Asesu'r ardal

- Bydd Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol ar y cyd yn asesu'r angen am ofal a chymorth yn eu hardal
- Byddant:
  - Hefyd yn asesu faint o ofalwyr sydd angen cymorth
  - Yn pennu lle nad yw anghenion yn cael eu diwallu
  - Yn penderfynu pa wasanaethau sydd eu hangen

## Asesu'r unigolyn

- Gall asesiadau o unigolion gan Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG gael eu cynnal ar yr un pryd
- Gall un corff gwblhau'r asesiadau hyn ar ran eraill



**Sut bydd y Ddeddf yn effeithio ar y rhai sy'n gweithio ym maes gofal iechyd?**



## Diogelu

- Os oes achos rhesymol dros amau bod oedolyn neu blentyn mewn perygl, rhaid rhoi gwybod am hynny i'r Awdurdod Lleol



## Cydweithio

- Bydd Awdurdodau Lleol yn cydweithio â phartneriaid i wella llesiant, ansawdd gofal a chymorth, a diogelu
- Bydd gofyn i Fyrddau Iechyd gydweithio ag Awdurdodau Lleol i wella llesiant

